

Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu

Mentrau Bach a Chanolig 30 Ionawr 2024

Cwestiynau ac atebion

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar.

Gallwch wylio'r gweminar a gweld y sleidiau yma: [Ailgylchu yn y Gweithle – Gweminarau \(wrapcymru.org.uk\)](https://wrapcymru.org.uk)

Cod Ymarfer – [Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU](https://wrapcymru.org.uk)

Mae adnoddau ar gael yma i'ch helpu i baratoi: [Canllawiau y Busnes o Ailgylchu \(wrapcymru.org.uk\)](https://wrapcymru.org.uk)

Cwestiwn gan SME	
Pa fin y dylid rhoi bwyd ynddo os ydyn ni'n cynhyrchu llai na 5kg yr wythnos?	Gall busnesau sy'n cynhyrchu llai na 5kg o fwyd ddewis cael casgliad gwastraff bwyd o hyd, ond nid yw'n ofynnol. Os nad oes gennych gasgliad gwastraff bwyd, dylid rhoi bwyd yn y bag neu'r bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.
Os ydych chi'n fusnes bach nad yw'n cynhyrchu unrhyw wastraff bwyd, ond bod gennych chi ymwelwyr rheolaidd a fydd yn cynhyrchu swm bach o wastraff bwyd, a fydd rhaid i chi fonitro gwastraff bwyd yr ymwelwyr?	Bydd, bydd angen i chi fonitro faint o wastraff bwyd a gynhyrchir i sicrhau cydymffurfiaeth ac fel tystiolaeth i'r rheolyddion. Fel y nodir yn 7.24 a 7.25 o'r Cod.
Sut mae busnesau'n cael bin gwastraff bwyd?	Os oes angen bin gwastraff bwyd arnoch, cysylltwch â chasglwr gwastraff a fydd wedyn yn darparu cynhwysydd addas sy'n bodloni eich gofynion ac yn cytuno ar gcontract gyda chi. Bydd eich casglwr gwastraff yn cadarnhau eich diwrnod casglu ac amllder y casgliadau ar gyfer eich gwastraff bwyd.
Beth ddylwn ei wneud os oes gennyf eitemau/nwyddau penodol sy'n cynnwys deunyddiau niferus na ellir eu gwahanu'n ddiogel ar y safle? Er enghraifft, mae gen i rîl pren haenog sydd â rhannau cryfhau o fetel yn rhedeg drwyddi, na ellir eu gwahanu'n ddiogel.	Gan nad yw'r rhain yn ddeunyddiau tebyg i gartrefi, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y gofynion casglu ar wahân. Os oes gennych lawer iawn o wastraff o ddeunydd arbenigol penodol, efallai y bydd eich casglwr gwastraff yn gallu dod o hyd i ffordd o'i ailgylchu, ond nid yw hyn yn ofniad o dan y rheoliadau.
Ble fydden ni'n rhoi sribedi plastig ar gyfer clymu ceblau?	

	<p>Gall eich casglwr gwastraff felly eich cyngori i roi'r mathau hyn o eitemau yn eich bag neu fin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.</p>
<p>Pa mor dda y mae'r holl gwmnïau ailgylchu/gwastraff wedi'u paratoi i ddarparu cyngor, a gwerth da, i'w cwsmeriaid SME?</p>	<p>Mae casglwyr gwastraff wedi cael gwybod am y newidiadau hyn sydd i ddod drwy'r ymgynghoriadau a thrwy eu sefydliadau masnach dros nifer o flynyddoedd.</p> <p>Gwyddom fod llawer o gasglwyr gwastraff yn brysur yn paratoi ar gyfer y newidiadau. Os na all eich casglwr gwastraff ddarparu gwasanaeth i chi am bris yr ydych yn ei ystyried yn werth da, byddem yn awgrymu cael dyfynbrisiau gan nifer o ddarparwyr eraill.</p>
<p>Sut dylen ni gael gwared ar gardbord sydd wedi'i halogi gan fwyd?</p>	<p>Ni ddylid rhoi cardbord wedi'i halogi â bwyd yn eich cynwysyddion ailgylchu (gweler Atodiad 3 o'r Cod Ymarfer sy'n amlinellu pa is-ffracsiynau papur a cherdyn y dylid ac na ddylid eu rhoi yn y ffrwd gwastraff ailgylchadwy). Dylech ofyn i'ch casglwr gwastraff am lefel yr halogiad bwyd (os o gwbl) sy'n dderbyniol.</p>
<p>Beth yw'r rheolau ar gyfer pobl sy'n gweithio o gartref? Mae ein tîm ni'n gweithio o bell yn gyfan gwbl.</p>	<p>Nid oes rhaid i weithwyr sy'n gweithio o gartref gydymffurfio os ydynt yn cynnal gweithgareddau tebyg i swyddfa ac yn cynhyrchu cyn lleied o wastraff â phosibl. Fodd bynnag, os ydych yn rhedeg busnes neu'n gwneud rhyw fath o weithgaredd busnes o'ch cartref (er enghraifft gwneud eitemau i'w gwerthu ar-lein, neu os ydych yn warchodwr plant), gallai hyn olygu bod rhan o'ch eiddo yn "annomestig", yn ac felly byddai'r rheoliadau newydd yn berthnasol.</p> <p>Gweler adran 5 o'r Cod 'Oes rheidrwydd arnaf?' am wybodaeth fanylach.</p>
<p>A fyddai'n werth prynu clorian i bwysu ein gwastraff bwyd?</p>	<p>Gallai fod yn ddefnyddiol prynu clorian os ydych yn cynhyrchu symiau bach o wastraff bwyd, er mwyn sicrhau eich bod o dan y trothwy 5kg, ond nid yw'n ofynnol.</p> <p>Bydd angen i chi ddangos i reoleiddiwr sut rydych wedi cyfrifo nad ydych yn cynhyrchu 5kg neu fwy o wastraff bwyd.</p>
<p>Pwy sy'n darparu'r biniau ar wahân? Mae ein busnes mewn swyddfeydd a wasanaethir. Beth os nad yw'r landlord yn cefnogi cydymffurfiaeth?</p>	<p>Yn y lle cyntaf, siaradwch â'ch landlord i weld beth mae'n ei wneud i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd. Fel meddiannydd, mae</p>

	gennych gyfrifoldeb o hyd i sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu bodloni.
A gewch chi ddal i roi gwastraff y tu mewn i fag plastig fel cynhwysydd, i drosglwyddo'r gwastraff o'r tu mewn i'r eiddo i'r bin allanol?	Cewch, cyn belled â bod y deunyddiau'n cael eu cyflwyno ar wahân i'ch casglwr gwastraff.
A ellir rhoi eitemau metel a phlastig mewn cynhwysydd ailgylchu cymysg?	O dan y rheoliadau, gellir gosod metelau, plastigau a chartonau yn yr un cynhwysydd (er ein bod yn cynghori peidio â'i alw'n ffrwd "ailgylchu cymysg" gan y gallai hyn fod yn ddryslyd). Fodd bynnag, bydd angen i chi gytuno ar hyn gyda'ch casglwr gwastraff, oherwydd efallai bod rhai'n casglu'r ffrydiau hyn ar wahân (e.e. metelau ar wahân i blastigau).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at WalesRecycles@wrap.org.uk neu CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk.